
Y cylchgrawn i breswylwyr Tai Wales & West

AM DDIM

# In Touch

HYDREF/GAEAF 2024



## A ydych chi'n colli allan ar Gredyd Pensiwn?

## Help gyda gwresogi yn ystod y gaeaf eleni

## Cwrdd â ffotograffydd ein clawr, sy'n breswylydd

Tai Wales & West Housing

# Amseroedd cau dros y Nadolig

Bydd ein swyddfeydd ar gau i ymwelwyr ar **ddydd Llun 23 a dydd Mawrth 24 Rhagfyr,** fodd bynnag, byddwch yn gallu ein ffonio fel arfer ar y diwrnodau hyn.

Byddwn ar gau am y Nadolig o **3pm ar ddydd Mawrth 24 Rhagfyr tan 8am ar ddydd Iau 2 Ionawr.**

Yn ystod y cyfnod hwn, ni chaiff ein sianelau cyfryngau cymdeithasol eu monitro.

Os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau brys yn ystod y cyfnod hwn, ffoniwch:

**0800 052 2526**

I gael help gyda gwaith trwsio neu ymholiadau nad ydynt yn rhai brys, neu i dalu eich rhent ar-lein, trowch at ein gwefan: **wwha.co.uk**

Os bydd eich taliadau Debyd Uniongyrchol yn ddyledus yn ystod y gwyliau, trowch at dudalen 6 am ragor o wybodaeth a dyddiadau dyledus.

Mae ein Gwasanaeth Cymorth a Llesiant 24 awr gan Life & Progress yn cynnig cymorth proffesiynol a chyfrinachol yn ystod y gwyliau. Ffoniwch y rhif rhadffôn **0330 094 8845.** Gweler ein clawr cefn am ragor o wybodaeth.

## Cysylltu â Ni

Tai Wales & West. Tŷ'r Bwa, 77 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU
Ffôn: 0800 052 2526 Testun: 07788 310420
E-bost: contactus@wwha.co.uk Gwefan: www.wwha.co.uk

Gallwch gysylltu ag aelodau o staff yn uniongyrchol hefyd trwy anfon neges e-bost atynt. Er enghraifft, joe.blogg@wwha.co.uk

## Ieithoedd a ffurfiau eraill

Os hoffech gopi o'r rhifyn hwn o In Touch yn Saesneg neu mewn iaith neu ffurf arall, er enghraifft, print mawr, a fyddech gystal â rhoi gwybod i ni a byddwn yn eich helpu.

# CYNNWYS


6 Y newidiadau diweddaraf i'r Credyd Cynhwysol

8 Newyddion o'n cynlluniau

10 Rheoli llwydni a chyddwysiad yn ystod y gaeaf

12 Croesawu preswylwyr newydd yn Sir Benfro a Wrecsam

16 Sut ydym yn gwneud? Ein Hadroddiad Perfformiad diweddaraf

28 Darganfod lle y gallwch chi ddysgu Cymraeg a defnyddio eich Cymraeg

30 Tai Chi ar gyfer llesiant

32 Posau

35 In Touch yn mynd yn ddigidol


## Bod yn gymdeithasol gyda Thai Wales & West

**Facebook**
facebook.com/wwhousing

**Linkedin**
linkedin.com/company/wwha

**Instagram**
instagram.com/whousing

Ymdrechwyd i sicrhau cywirdeb y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn. Byddem yn cynghori preswylwyr i droi at y wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwefan, **wwha.co.uk**, ar wefannau'r Llywodraeth a chan ffynonellau swyddogol a dibynadwy eraill.



# Neges wrth Anne

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o In Touch.

Wrth i flwyddyn arall dynnu at ei therfyn, rydym yn edrych ymlaen at y gwyliau dros yr ŵyl.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn dathlu'r gwaith gwych sy'n digwydd yn ein cymunedau. O rieni sy'n trefnu eu hwyl eu hunain yn ystod y gwyliau ar gyfer y bobl ifanc yn eu cymunedau, i'r cymdogion sy'n dod ynghyd i gadw'n heini ac yn egnïol.

Gobeithio eich bod chi wedi sylwi ar y llun o'r robin nadoligaidd ar y clawr. Diolch i Stacey, ein preswylydd talentog o Dde Cymru, am rannu ei ffotograffiaeth bywyd gwyllt hardd gyda ni.

Gall y gaeaf fod yn gyfnod pryderus hefyd, gyda diwrnodau oer a thywyll o'n blaenau a'r newidiadau a wnaethpwyd yn ddiweddar i'r Taliadau Tanwydd Gaeaf, ac efallai bod rhai yn gofidio am filiau ynni eleni. Mae'n bwysicach nag erioed eich bod yn darganfod a ydych chi neu eich ffrindiau, eich perthnasau a'ch cymdogion hŷn yn gymwys i gael help ariannol trwy gyfrwng Credyd Pensiwn y Llywodraeth. Mae ein Swyddogion Cymorth Tenantiaeth yn rhannu eu cyngor am yr hyn y gallwch ei wneud i hawlio.

Rydym yn cynnig cyngor hefyd er mwyn cadw eich cartref yn gynnes ac yn gyffyrddus yn ystod y misoedd oerach.

A hefyd, mae gennym y newyddion arferol o'n cynlluniau a phosau i chi eu mwynhau.

Os ydych chi'n dathlu'r Nadolig neu un o'r dathliadau crefyddol niferus a gynhelir ar yr adeg hon o'r flwyddyn, hoffwn estyn dymuniadau gorau i chi ar gyfer 2025.




# Help gyda gwresogi y gaeaf hwn

**Mae newidiadau a wnaethpwyd i'r Taliadau Tanwydd Gaeaf wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar. Rydym yn edrych ar y sawl sy'n gymwys nawr a pha daliadau eraill y gallech chi eu cael er mwyn helpu i dalu eich costau ynni yn ystod y gaeaf eleni.**

## Taliadau Tanwydd Gaeaf

Ers i'r Llywodraeth gyhoeddi yn gynharach eleni y cynhelir prawf modd ar Daliadau Tanwydd Gaeaf eleni, mae'n bwysicach nag erioed eich bod yn darganfod a ydych chi, neu ffrind neu berthynas hŷn, yn gymwys i gael Credyd Pensiwn. Yn flaenorol, rhoddwyd £300 bob gaeaf i'r holl bensiynwyr er mwyn eu helpu i dalu biliau ynni. Ond gan ddechrau eleni, cynhelir prawf modd nawr ar Daliadau Tanwydd Gaeaf. Os byddwch yn gymwys, byddwch yn cael £200 neu £300, gan ddibynnu ar eich amgylchiadau.

Er bod nifer o sefydliadau yn erfyn ar y Llywodraeth i gymryd camau i ehangu'r cymorth sydd ar gael, ofnir y bydd nifer o bobl hŷn yn dioddef tlodi tanwydd.

Er mwyn bod yn gymwys, bydd yn rhaid i chi fodloni'r meini prawf canlynol nawr:

- cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth erbyn diwedd yr wythnos gymhwyso (16-22 Medi 2024)
- byw yng Nghymru neu Loegr
- bod yn gymwys i gael budd-dal cymwys neu gredydau treth gan gynnwys y Credyd Pensiwn

## Pryd y byddwch yn cael eich talu

Gwneir rhan fwyaf y taliadau yn awtomatig ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr. Os ydych chi'n gymwys, byddwch yn cael llythyr a fydd yn dweud wrthych faint y byddwch yn ei gael ac i ba gyfrif y bydd yn cael ei dalu. Fel arfer, bydd hwn yr un fath â'ch cyfrif Credyd Pensiwn neu'r cyfrif y telir budd-daliadau eraill i mewn iddo.

Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â'r Ganolfan Taliadau Tanwydd Gaeaf. Ffoniwch: **0800 731 0160** neu ewch ar-lein a throi at dwp.gov.uk/contact-winter-fuelpayments-centre. Bydd angen i chi nodi eich enw, eich cyfeiriad, eich dyddiad geni a'ch Rhif Yswiriant Gwladol.

Am ragor o wybodaeth, ac i sicrhau eich bod yn gymwys, trowch at wefan y Llywodraeth, sef gov.uk/winter-fuel-payment

## Credyd Pensiwn: a ydych chi'n colli allan?

Ni chaiff gwerth miliynau o bunnoedd o Gredyd Pensiwn ei hawlio bob blwyddyn. Nawr yw'r amser i ddarganfod a ydych chi'n gallu ei hawlio, oherwydd y bydd hyn yn rhoi'r hawl i chi gael y Taliad Tanwydd Gaeaf ychwanegol hwnnw.

Mae'r Credyd Pensiwn ar wahân i Bensiwn y Wladwriaeth. Mae'n cynnig arian ychwanegol er mwyn helpu i dalu costau byw a gall helpu gyda chostau tai hefyd.

## Taliadau Debyd Uniongyrchol dros yr ŵyl

Dros gyfnod y Nadolig, gyda banciau ar gau, gallai'r dyddiadau canlynol effeithio ar eich taliadau rhent Debyd Uniongyrchol.

Os yw eich Debyd Uniongyrchol yn ddyledus i ni ar 25 neu 26 Rhagfyr, ni fyddwch yn gweld hwn yn dod allan o'ch cyfrif banc tan ddydd Gwener 27 Rhagfyr.

Bydd taliadau Debyd Uniongyrchol sy'n ddyledus ar ŵyl y banc neu ar benwythnos yn cael eu gwneud ar y diwrnod gwaith nesaf. Os bydd eich Debyd Uniongyrchol yn ddyledus ar ddydd Mercher 1 Ionawr, ni fyddwch yn gweld hwn yn dod allan o'ch cyfrif banc tan ddydd Iau 2 Ionawr.

Gan ein bod yn cyflwyno'r ffeil dalu ymlaen llaw, efallai, fodd bynnag, y bydd yn dangos fel trafodiad yn yr arfaeth, gan effeithio ar eich arian cliriedig dros ŵyl y banc.

Sylwer na fyddwn yn gallu prosesu unrhyw newidiadau i daliadau Debyd Uniongyrchol ar ôl dydd Mercher 18 Rhagfyr tan ddydd Iau 2 Ionawr.

Efallai y byddwch hyd yn oed ei gael os oes gennych chi bensiwn preifat bach neu gynilion.

Hyd yn oed os mai ychydig bunnoedd o Gredyd Pensiwn y byddwch yn eu cael, mae'n agor drysau i gael help arall, megis Budd-dal Tai, gostyngiadau Treth Gyngor, trwydded deledu am ddim (os ydych chi'n 75 oed neu'n hŷn), help gyda thriniaeth ddeintyddol gan GIG, sbectolau a chludiant i apwyntiadau ysbyty.

I gael gwybod mwy, trowch at gov.wales/heretohelp neu ffoniwch linell gymorth Advicelink Cymru yn rhad ac am ddim ar **0808 250 5700**.

Gallwch fynd ar-lein hefyd a throi at gov.uk/pension-credit-calculator

## Gostyngiad Cartref Cynnes

Ail-agorodd y cynllun hwn ddiwedd fis Hydref ac mae'n talu gostyngiad unigol o £150 oddi ar eich bil trydan yn awtomatig.

Credyd Pensiwn yw un o'r budd-daliadau prawf modd y mae angen eich bod yn eu cael er mwyn bod yn gymwys i gael y taliad ychwanegol, a delir yn ystod misoedd y gaeaf fel arfer, erbyn diwedd mis Mawrth.

Am ragor o wybodaeth, trowch at: gov.uk/the-warm-homediscount-scheme

## Taliadau Tywydd Oer

Ailddechreuodd y cynllun ddechrau fis Tachwedd 2025 ac mae'n talu £25 ychwanegol os disgwylir i'r tymheredd cyfartalog yn eich ardal ostwng i sero gradd neu'n is am saith niwrnod yn olynol. I gael gwybod mwy, trowch at gov.uk/coldweather-payment.

Mae Taliadau Tywydd Oer yn wahanol i Daliadau Tanwydd Gaeaf.

## Angen mwy o help?

Mae ein Swyddogion Cymorth Tenantiaeth ar gael i helpu ein preswylwyr hŷn i ddarganfod yr hyn y mae ganddynt yr hawl i'w gael. Cysylltwch â'ch Swyddog Cymorth Tenantiaeth neu ffoniwch ein Tîm Cymorth Tai ar **0800 052 2526.**

## Rhybudd am sgam!

Mae sgam newydd a anfonir mewn neges destun yn targedu pensiynwyr, sy'n cynnig disodli'r Lwfans Tanwydd Gaeaf. Mae'n honni y caiff lwfans byw newydd ei dalu yn lle'r lwfans tanwydd gaeaf, ac mae'n gofyn i ddioddefwyr ddiweddaru eu manylion er mwyn hawlio. Peidiwch â rhoi gwybodaeth breifat (fel manylion banc neu gyfrineiriau). Am ragor o wybodaeth am y sgam, trowch at ein gwefan https://www.wwha.co.uk/en/news/pensioners-warned-about-winter-fuel-payment-scam/




# Symud i'r Credyd Cynhwysol

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Credyd Cynhwysol, sef y budd-dal misol a gyflwynwyd yn 2013 am y tro cyntaf i'r rhai ar incwm isel neu ddim incwm o gwbl, wedi bod yn cael ei weithredu fesul tipyn ar draws y DU.

Gydag amser, mae'r DWP (Adran Gwaith a Phensiynau) wedi symud pobl o fudd-daliadau megis y Lwfans Ceisio Gwaith, Credydau Treth Plant, Budd-dal Tai a'r Cymhorthdal Incwm.

Yn gynharach eleni, symudwyd pobl a oedd yn hawlio Credydau Treth a Chymhorthdal Incwm i'r Credyd Cynhwysol – bellach, mae DWP yn canolbwyntio ar y rhai sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) sy'n seiliedig ar incwm, sy'n effeithio ar bobl sydd â phroblemau iechyd hirdymor.

Gan ddechrau ym mis Medi 2024, dechreuodd DWP anfon llythyrau "hysbysiad mudo" i hawlwyr, yn eu gwahodd i symud drosodd i'r Credyd Cynhwysol (UC).

Pan fyddwch yn cael eich llythyr, peidiwch pryderu, mae ein Swyddog Cymorth Tenantiaeth, Kate Abraham, wedi paratoi'r canllaw hwn i'ch helpu.

## Beth sy'n wahanol am y Credyd Cynhwysol?

Rheolir hawliadau Credyd Cynhwysol ar-lein yn bennaf, ond gellir eu gwneud dros y ffôn os ydych yn ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg. Fe'i telir bob mis, a thelir ESA bob pythefnos. Os byddwch yn gweld eich bod yn ei chael hi'n anodd cyllidebu gydag UC, gallwch ofyn bod y taliad yn cael ei rannu, a chael dau daliad mewn mis.

Er enghraifft, os mai 1 Hydref yw eich dyddiad talu, gallwch ofyn bod hanner yn cael ei dalu ar y dyddiad hwnnw a'r hanner arall ar 15 Hydref. Yna, telir taliadau i chi ar y 1af a'r 15fed o bob mis.

## Beth ddylwn i ei wneud pan fyddaf yn cael fy llythyr "mudo"?

Bydd gennych chi dri mis a diwrnod o ddyddiad y llythyr i hawlio Credyd Cynhwysol. Ar ôl y cyfnod hwnnw, bydd eich budd-daliadau ESA yn stopio oni bai eich bod yn gofyn iddynt am fwy o amser.

Yn gyffredinol, mae'n well aros am eich llythyr "mudo" gan DWP cyn gwneud cais, oherwydd y byddwch yn cael taliad pontio fel hyn. Byddwch hefyd yn cael rhediad o bythefnos ar daliad ESA a'r Budd-dal Tai. Mae hwn yn gyfnod o bythefnos ychwanegol lle y byddwch yn parhau i gael eich ESA a'ch Budd-dal Tai ar ôl i chi wneud eich cais am UC. Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd yn rhaid i chi aros mis ac wythnos cyn cael eich taliad cyntaf, oherwydd telir UC fel ôl-daliad. Yr amser gorau i ymgeisio fyddai'r diwrnod ar ôl i chi gael eich taliad ESA diweddaraf, felly dim ond tair wythnos a hanner y byddai'n rhaid i chi aros am eich taliad UC cyntaf, yn hytrach na chwech wythnos.

## Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol?

Os byddwch yn gwneud cais ar-lein, bydd angen i chi greu cyfrif gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. I wneud hyn,

bydd angen eich rhif ffôn symudol a'ch cyfeiriad e-bost arnoch. Bydd yn rhaid i chi nodi manylion sy'n cadarnhau pwy ydych chi, manylion eich iechyd, eich costau tai, eich incwm a'ch cynilion hefyd, felly bydd angen bod manylion eich rhent a'ch tâl gwasanaeth wrth law.

Ar ôl i chi gwblhau'r rhain, gallwch gyflwyno eich cais. Yna, bydd angen i chi gadarnhau eich manylion personol. Gallwch wneud hyn ar-lein fel arfer, gan ddefnyddio pasbort a thrwydded yrru. Os nad oes gennych chi unrhyw un o'r dogfennau hyn, byddwch yn cael galwad gan y tîm Credyd Cynhwysol a byddant yn gwneud apwyntiad i chi fynd â'ch prawf adnabod i'ch Canolfan Byd Gwaith leol. Bydd eich ESA a'ch Budd-dal Tai yn stopio bythefnos ar ôl i chi wneud yr hawliad. Caiff eich costau tai eu cynnwys yn eich taliad UC o ddyddiad eich hawliad, felly bydd angen i chi siarad â'ch Swyddog Tai am eich taliadau rhent. Os byddwch yn ei chael hi'n anodd talu eich rhent, gallwch ofyn bod y costau tai yn cael eu talu i ni, eich landlord, yn uniongyrchol.

## Sut allaf ymdopi heb arian am dair i bedair wythnos?

Os byddwch yn credu y byddwch yn ei chael hi'n anodd rheoli eich arian nes i chi gael eich taliad UC cyntaf, gallwch ddewis gwneud cais am daliad ymlaen llaw. Bydd angen ad-dalu hwn o'ch taliadau UC misol dros uchafswm o 24 mis. Er enghraifft, os byddwch yn cael blaendaliad o £240, bydd eich taliad Credyd Cynhwysol yn lleihau £10 am y 24 mis nesaf, felly dylech wneud cais am y swm y mae ei angen arnoch yn unig.

## Rhybudd am sgam!

Mae awdurdodau lleol yn rhybuddio am ap Credyd Cynhwysol ffug sydd wedi cael ei greu ar rai o'r siopau apiau symudol. Mae'r ap yn honni ei fod yn caniatáu i ddefnyddwyr reoli eu cyfrifon a cheir negeseuon testun sy'n sgamiau hefyd.

Nid yw DWP wedi creu ap, felly defnyddiwch wefan swyddogol Credyd Cynhwysol DWP y Llywodraeth yn unig i gael gwybodaeth neu gofnodi gwybodaeth.
Os ydych chi wedi lawrlwytho'r ap hwn, dylech ei ddadosod a chysylltu ag action fraud ar **0300 123 20 40**

## Nid ydw i ar-lein. Beth allaf ei wneud?

Gallwch ffonio'r tîm Credyd Cynhwysol, a gallant lenwi cais gyda chi dros y ffôn, a bydd DWP yn postio unrhyw ohebiaeth atoch ynghylch eich hawliad.

## A oes unrhyw help ar gael i agor cyfrif ar-lein?

Os oes gennych chi ffôn clyfar neu lechen, gall eich Swyddog Cymorth Tenantiaeth eich helpu i agor eich cyfrif a gall eich cynorthwyo i fewngofnodi a chynnig help gyda beth bynnag y bydd angen i chi ei wneud er mwyn trefnu ac archwilio eich Cyfnodolyn UC ar-lein.

## Unrhyw gyngor?

Peidiwch â phoeni. Bu rhywfaint o sylwadau negyddol am y Credyd Cynhwysol, ond ar ôl gwneud eich hawliad, a phan fydd wedi cael ei drefnu, mae popeth arall yn eithaf hawdd i'w reoli.  Os byddwch yn aros am y llythyr mudo, bydd y broses o newid drosodd yn mynd rhagddi yn fwy esmwyth.

## Cysylltu â ni

Cysylltwch â'ch Swyddog Cymorth Tenantiaeth neu ffoniwch 0800 052 2526 i siarad â'n Tîm Cymorth Tai.

## Preswylydd yng Nghaerdydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 105 oed




Yn ddiweddar, bu un o'n preswylwyr hynaf, Mrs West, yn dathlu ei phen-blwydd yn 105 oed.

Bu'n dathlu ei phen-blwydd arbennig gyda'i merch-yng-nghyfraith, Julia, yn eu cartref yng Nghaerdydd.

Fe'i ganwyd ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, ac am sawl blynedd, bu Mrs West a'i diweddar ŵr yn rhedeg siop bapur newydd yn ardal Sblot yn y ddinas, lle'r oeddent yn adnabyddus.

Symudodd Mrs West i fyw gyda'i merch-yng-nghyfraith 12 mlynedd yn ôl.

"Roedd hi'n coginio ac yn glanhau nes yr oedd hi'n 100. Mae hi'n hoffi cadw ei meddwl yn brysur, gan ddarllen ar ei pheiriant e-ddarllen," dywedodd ei merch-yng-nghyfraith.

"Mae hi wastad wedi bod yn berson annibynnol iawn."

## Mamau yn Aberteifi yn trefnu hwyl yn ystod y gwyliau



Mae grŵp o breswylwyr yn Aberteifi wedi dod ynghyd i drefnu gweithgareddau ar gyfer eu plant ar yr ystad lle y maent yn byw.

Cyfarfu rhieni yng Ngolwg Y Castell yn ystod yr haf y llynedd mewn diwrnodau hwyl cymunedol a drefnwyd gan Rhiannon Ling, Swyddog Datblygu Cymunedol WWH, a sefydliadau cymunedol eraill.

Pan orffennodd y sesiynau, roedd y plant wedi cael cymaint o hwyl fel bod y rhieni yn dymuno gwneud mwy. Gyda bron i 50 o blant yn byw ar yr ystad, daethant ynghyd a chysylltu â Rhiannon i greu cynllun er mwyn trefnu rhagor o weithgareddau.

Cychwynnodd y digwyddiadau gyda pharti Calan Gaeaf yn yr ysgol leol, a ddilynwyd gan fore coffi Nadolig i rieni a helfa wyau Pasg. Gwnaethant gais am gyllid hefyd i brynu sied gymunedol ac offer chwarae.

Dywedodd Denise, mam i ddau o blant: "Mae wedi bod mor braf; mae'n cynnig y cyfle i ni ddod ynghyd fel rhieni a rhoi rhywbeth i'r plant ei wneud.

"Mae'r plant wrth eu bodd ac mae'r rhieni wrth eu bodd. Pan fydd pobl newydd yn symud i mewn, mae'n ffordd o'u croesawu nhw hefyd."

Os ydych chi'n awyddus i drefnu sesiynau chwarae, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Cymunedol.

## Crynodeb o'r Newyddion o Ogledd Cymru



Cafodd preswylwyr y cyfle i siarad gyda staff am fywyd yn eu cymuned pan fu fan Tai Wales & West yn teithio o gwmpas Gogledd Cymru ym mis Medi a mis Hydref.

Roedd pethau yr ydym yn eu gwneud i gynyddu bioamrywiaeth yn ein cymunedau a chyngor ynghylch ailgylchu gwastraff y cartref ymhlith y pynciau y rhoddwyd sylw iddynt.

Cyfarfu staff â phreswylwyr mewn lleoliadau ar draws Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint.

Roedd Cadwch Gymru'n Daclus yno hefyd gyda Streetscene Sir y Fflint, pan ymwelodd y fan â Ffordd Powell ym Mwcle a The Paddocks ym Mancot.

## Glanhau yng Nghaerau, Caerdydd



Cynhaliwyd y diwrnod glanhau cymunedol yng Nghaerau, Treláí yn ystod yr haf.

Ymunodd staff o WWH â phreswylwyr ac M&K, contractwyr gwastraff arbenigol, i dacluso'r ystad.

Ymunodd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol a staff o'r Tîm Strategaeth Gwastraff yng Nghyngor Caerdydd â nhw, gan gynnig cyngor ynghylch sut i waredu gwastraff yn y dyfodol.

Dywedodd Heather Cave, Swyddog Tai: "Daeth y gymuned ynghyd, a phawb yn helpu ei gilydd, a bu'r digwyddiad cyffredinol yn llwyddiant ysgubol."

## Stori Clawr

Anfonwyd ein llun tymhorol prydferth sydd ar y clawr i mewn gan Stacey Jenkins, preswylydd a ffotograffydd bywyd gwyllt brwd.

Mae Stacey, sy'n byw yn Catherine Drive, Tongwynlais, yn teimlo'n angerddol am ffotograffiaeth, ac mae wedi bod yn ymddiddori ynddo ers iddo astudio seryddiaeth yn y brifysgol a chymryd lluniau o galaethau, comedau a'r gofod.

Yn ystod y cyfnod clo, tyfodd ei gariad tuag at ffotograffiaeth bywyd gwyllt wrth iddo ddechrau tynnu lluniau o wenyn a'r blodau y cânt eu denu iddynt.

"Gyda ffotograffiaeth, rydw i'n ceisio dangos byd yr wyf yn ei weld a byd sy'n bwysig iawn ac yn brydferth iawn, ac y mae angen ein cymorth arno," dywedodd Stacey.





# Rheoli llwydni a chyddwysiad yn ystod y gaeaf

**Wrth i'r tywydd oeri, rydym yn mynd i roi sylw i'r ffordd orau y gallwn eich helpu i gadw eich cartref yn gynnes ac yn gyffyrddus yn ystod y gaeaf.**

Mae cyddwysiad yn broblem y bydd nifer ohonom yn ei chael ar ryw adeg, ac mae hyn yn cael ei achosi pan fydd aer llaith a chynnes yn dod i gysylltiad ag arwyneb oer, gan arwain at ffurfio dafnau dŵr. Mae ffenestri sydd ag anwedd arnynt ar fore oer rhewllyd, neu ar ôl cael cawod boeth, yn enghreifftiau o gyddwysiad.

Os rhoddir sylw iddo yn brydlon, ni ddylai cyddwysiad beri problem. Os byddwch yn ei adael, fodd bynnag, gall gynnig amgylchedd delfrydol i lwydni ymddangos. Mae sborau llwydni yn rhan naturiol o'n hamgylchedd ac maent wastad yn bresennol yn yr aer. I oroesi, mae angen amodau llaith arnynt, a deunydd organig i fwydo arno. Yn gyffredinol, bydd llwydni yn ffynnu lle y mae lefel y lleithder yn uchel a bydd yn datblygu fel smotiau llwyd, gwyrdd neu ddu bychain a fydd yn tyfu ac yn lledaenu os na fyddwch yn eu trin.

## Beth fyddwn yn ei wneud i helpu?

Os byddwch yn ffonio i adrodd am unrhyw waith trwsio y mae angen ei wneud, bydd ein swyddogion ateb galwadau yn gofyn a oes gennych chi unrhyw lwydni neu gyddwysiad difrifol yn eich eiddo ac, os felly, byddant yn gofyn rhai cwestiynau pellach er mwyn cael rhagor o wybodaeth fel y gallwn benderfynu ar y camau cywir i'w cymryd. Yr ymateb mwyaf cyffredin yw anfon un o'n Swyddogion Rheoli Eiddo ac Ystadau allan ar ymweliad i ymchwilio i'r achosion posibl. Er bod rhai achosion o lwydni wedi codi o ganlyniad i lefelau lleithder a chyddwysiad uchel parhaus, gallai hefyd fod yn cael ei achosi gan ddiffygion strwythurol. Mae gan ein Swyddogion yr offer a fydd yn gallu cynnig diagnosis a chreu cynllun gweithredu i drin y llwydni a'ch helpu i leihau'r risg y bydd yn dychwelyd.

Efallai y bydd angen i ni anfon un o'n contractwyr i drin y broblem hefyd, a byddwn yn dweud wrthych os bydd angen gwneud hyn, gan roi gwybod amseroedd apwyntiadau i chi. Byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad wrth ganiatáu mynediad i ni er mwyn i ni allu trin unrhyw lwydni yn eich eiddo.



## Sut i osgoi llwydni rhag tyfu

Gall llwydni wneud niwed i ddillad a dodrefn, ac mae'n gallu achosi problemau iechyd hefyd, yn enwedig ymhlith plant ifanc, yr henoed, neu unrhyw un sydd â chyflwr resbiradol. Y ffordd orau o osgoi hyn yw rheoli lefelau lleithder yn eich cartref er mwyn atal llwydni rhag goroesi a thyfu. Fel arall, bydd trin unrhyw ddarnau bychain o lwydni wrth iddynt ymddangos, gan ddefnyddio toddiad cannu neu ddeunydd glanhau y gallwch ei brynu, yn sicrhau na fydd yn tyfu. Os byddwch yn trin llwydni yn eich eiddo, efallai y bydd hi'n syniad da ymestyn eich triniaeth o gwmpas 0.5m o'r hyn sy'n weladwy, oherwydd yn aml, lle y mae llwydni wedi lledaenu a lle y mae'n tyfu, efallai na fydd yn weladwy.

Mae'r pethau arferol yr ydym oll yn eu gwneud yn ein cartrefi, fel coginio, ymolchi, a golchi dillad, oll yn ychwanegu lleithder i'r aer ac maent yn gallu arwain at gyddwysiad, ac mae'n gallu bod yn anodd ei osgoi yn gyfan gwbl.

Fodd bynnag, mae awyru yn rhan fawr o'r ymdrech i reoli lleithder a lleihau lleithder ychwanegol. Bydd agor ffenestri, a chadw holltau awyru ar ffenestri ar agor, yn helpu ac mae'n bwysig bod unrhyw ffaniau neu systemau awyru yn gweithio'n dda.

Rhowch wybod i ni os byddwch yn cael unrhyw broblemau gyda'r rhai yn eich cartref chi, neu os yw hi'n ymddangos nad ydynt yn clirio'r ystafell mor effeithiol ag y dylent. Bydd gan nifer ohonoch ffaniau sy'n ymateb i newidiadau mewn lefelau lleithder, felly efallai y byddwch yn clywed y ffan yn cyflymu pan fyddwch yn coginio neu'n ymolchi.

Os bydd angen unrhyw help arnoch i reoli cyddwysiad a llwydni, neu unrhyw gyngor am awyru eich cartref, ffoniwch ni ar **0800 052 2526**

### Rhagor o wybodaeth a chymorth

Mae ein gwefan yn cynnwys ychydig gyngor ymarferol i'ch helpu i reoli cyddwysiad a llwydni yn eich eiddo. Trowch at yr adran am lwydni a lleithder ar www.wwha.co.uk am ragor o wybodaeth.

Rydym yn dymuno eich helpu os oes gennych chi unrhyw gyddwysiad neu lwydni yn eich eiddo. Ffoniwch ni ar **0800 052 2526** fel y gallwn weithredu yn gyflym a'ch helpu i gadw'n gyffyrddus ac yn iach.

## Sir Benfro



***"Bydd ein cartref newydd yn hwyluso pethau i ni yn ein bywyd wrth i ni fynd yn hŷn."***

Mae Phil Rowlands, gyrrwr bws, yn dweud y bydd symud i'w fyngalo newydd yng Ngolwg Y Llan yn "gwneud ei fywyd yn haws."

Ym mis Medi, symudodd Phil a'i wraig Heidi, y mae'r ddau ohonynt yn gweithio i gwmni bws lleol, i mewn i'w byngalo un ystafell wely yn Eglwyswrw, Sir Benfro, o fflat ar y llawr cyntaf yng Nghilgerran, lle'r oeddent wedi bod yn byw am 17 o flynyddoedd.

Dywedodd Phil: "Mae'n dŷ hyfryd. Bydd yn hwyluso pethau i ni yn ein bywyd wrth i ni fynd yn hŷn. Mae gennyf arthritis yn fy mhigyrnau ac mae pengliniau fy ngwraig yn wael, felly roedd cerdded i fyny ac i lawr y grisiau yn ein fflat yn brofiad poenus."

"Mae'r tŷ yn teimlo'n llawer cynhesach ac rydw i'n gobeithio y bydd ein biliau gwresogi yn is gyda'r system wresogi ffynhonnell aer a'r paneli solar."

Mae cartref Phil yn un o naw byngalo, 10 tŷ a phedwar fflat ar y safle, sy'n edrych allan dros Fynyddoedd Preseli. Adeiladwyd y cartrefi gan ein partneriaid adeiladu hirdymor, Jones Brothers (Henllan) Ltd, ac mae ganddynt lefelau inswleiddio uchel er mwyn sicrhau gradd A EPC. Gosodwyd paneli ffotofoltäig (PV) ar y to er mwyn cynhyrchu trydan ac maent yn cynnwys systemau gwresogi a dŵr poeth ffynhonnell aer.

Symudodd Jamie a Jonathan Jones, dau frawd lleol, i'r datblygiad newydd yn Sir Benfro hefyd.

"Bydd ein cartref newydd yn gwneud ein bywydau yn haws wrth i ni fynd yn hŷn."

Ar ôl byw gyda pherthynas ar ystad gyfagos am nifer o flynyddoedd, roeddent yn chwilio am eu cartref eu hunain, ond ni allent fforddio prynu.

"Roeddem yn dymuno aros yn y pentref, ond mae popeth mor ddrud. Mae angen degau ar filoedd o bunnoedd arnoch fel blaendal i brynu rhywle, felly ni allem fforddio gwneud hynny," dywedodd Jamie, sy'n rhedeg busnes cludo nwyddau lleol gyda'i frawd.

"Arferem basio'r tai hyn bob dydd a'u gwylio yn cael eu hadeiladu, felly rhoddom ein henwau i lawr ac roeddem yn falch o gael un. Mae'r tŷ yn wych i ni," ychwanegodd.

## Wrecsam



*"Llefais pan glywais y byddem yn symud yma."*

Mae Andrew a Steven Benton yn dweud y bydd symud i fyngalo dwy ystafell wely yn Nhir Coed "yn newid popeth."

Roedd y pâr ymhlith y cyntaf i gael allweddi i'w cartref newydd yn ein datblygiad yng Ngwersyllt, Wrecsam.

Maent wedi bod yn breswylwyr Tai Wales & West ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, bedair blynedd yn ôl, cawsant y newyddion ofnadwy bod gan Andrew salwch angheuol, sef tiwmor ar yr ymennydd. Cafodd strôc a chwympodd yn gynharach eleni pan oeddent yn byw yn eu cartref blaenorol, sef fflat ar y llawr cyntaf yn Wrecsam.

Bellach, mae ganddynt fynediad ar y llawr gwaelod a lle ychwanegol, ac maent yn dweud y bydd ansawdd eu bywyd yn gwella.

"Llefais pan glywais y byddem yn symud yma," dywedodd Andrew. "Mae bod yma fel ennill y loteri.

Nid ydym wedi ei chael hi'n hawdd dros y bedair blynedd ddiwethaf, ond mae hynny wedi newid. Mae gallu symud o gwmpas yn annibynnol wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol."

"Bu'r broses o symud yn hollol wych; rydym wedi cael cymorth anhygoel gan ein Swyddog Tai."

Symudodd eu cymdogion newydd, Alicja a Damian, o eiddo arall yng Ngwersyllt i dŷ pâr yn Nhir Coed, sy'n fwy addas i'w hanghenion.

"Bydd hwn yn well ym mhob ffordd," dywedodd Alicja. "Mae fy mam yn byw gyda ni. Roeddem yn rhannu gardd yn flaenorol ond mae gennym ein gardd ein hunain nawr."

Adeiladwyd Tir Coed ar dir ar hen safle Fferm Woodlands, ac fe'u cwblhawyd gan y prif gontractwr, Grŵp Castlemead. Mae'n cynnwys cymysgedd o fyngalos, tai a Fflatiau.

> ***"...rydym wedi cael cymorth anhygoel gan ein Swyddog Tai."***

# Gogledd Cymru



Mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn Llys Onnen, Abergele

Rydym yn gweithio ar ddau safle yng Nghonwy ar hyn o bryd, gan ddwyn 97 o gartrefi newydd i'r sir. Yn gynharach eleni, dymchwelwyd dau dŷ tref Fictoraidd mawr a gweithdy yn Bay View Road, Bae Colwyn er mwyn adeiladu 54 o fflatiau newydd, a elwir Glan y Môr.

Gerllaw yn Abergele, mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn dda yn Llys Onnen, safle hen gartref gofal, sy'n cael ei ailddatblygu er mwyn adeiladu 43 o fflatiau.

Mae'r gwaith adeiladu newydd gychwyn ar dri datblygiad yn Wrecsam. Ym Mharc Wynnstay yn Rhiwabon, mae 43 o gartrefi yn cael eu hadeiladu ac yn Eaton Drive, mae safle hen ganolfan gymunedol yn cael ei drawsnewid yn eiddo byw â chymorth a 12 o fflatiau rhent fforddiadwy.

Yn gynharach eleni, dymchwelwyd un o'n cynlluniau presennol, sef bloc o fflatiau yng Nghwrt Pentwmpath, a adeiladwyd yn y 1970au, er mwyn gallu adeiladu 25 o gartrefi newydd modern sy'n defnyddio ynni mewn ffordd effeithlon.

Yn y cyfamser, mae'r gwaith ar wyth cartref newydd ar hen safle New Inn yn Sandycroft, Sir y Fflint, ar fin cael ei gwblhau.



Mae'r gwaith ar fin cael ei gwblhau yn New Inn, Sandycroft

## Gorllewin Cymru



Cartrefi newydd ym Mharc Y Chwarel, Abergwaun

Mae'r gwaith o ddymchwel hen dafarn yng nghanol Abergwaun wedi cael ei gwblhau, ac mae'r gwaith wedi cychwyn i adeiladu 12 o fflatiau ar gyfer pobl hŷn yn ei le. Enw'r cynllun fydd Angorfa, a bydd yn cynnwys fflatiau un ystafell wely modern i bobl dros 55 oed mewn lleoliad amlwg yn y dref. Disgwylir i'r cartrefi fod yn barod i breswylwyr symud i mewn iddynt yn hwyr flwyddyn nesaf.

Hefyd yn Abergwaun, mae ein contractwyr hirdymor, Jones Brothers (Henllan) Ltd, yn sicrhau cynnydd da gyda'r gwaith o adeiladu 50 o gartrefi newydd ym Mharc Y Chwarel, a fydd yn edrych allan dros Fae prydferth Abergwaun. Bydd y cartrefi hyn yn cael eu cwblhau yn ystod yr haf 2026.

Mae'r gwaith wedi cychwyn hefyd ar ddatblygiad o 14 o dai a fflatiau newydd yn mhentref Dinas yn Sir Benfro. Mae'r datblygiad drws nesaf i un o'n cynlluniau eraill, Parc Brynach, a gwblhawyd y llynedd.

Mae ein cartrefi newydd yng Ngwar y Garth ym Mhenrhyn-coch ger Aberystwyth bron yn barod, ac rydym yn edrych ymlaen i groesawu preswylwyr newydd i'r 10 tŷ a byngalo erbyn diwedd y flwyddyn.

## De Cymru



Mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn dda yn ein datblygiad tai fforddiadwy newydd ym Mro Morgannwg.

Cyn bo hir, bydd ein contractwyr hirdymor, P+P Builders, yn gorffen gosod y sylfeini ar gyfer yr 17 o gartrefi newydd yn St Bride's Road, Y Wig (yn y llun).


Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn gosod y cartrefi 1, 2 a 3 ystafell wely i bobl leol sydd mewn angen, pan fyddant yn barod yn ystod yr haf flwyddyn nesaf.

Mae datblygiad newydd arall o 15 o gartrefi yn Heol Y Pentir, Y Rhws, gerllaw Maes Awyr Caerdydd, yn cael eu hadeiladu hefyd, a dylent fod yn barod erbyn yr hydref flwyddyn nesaf.

# Sut ydym yn perfformio?

Croeso i'n hadroddiad diweddaraf, sy'n dangos sut ydym yn perfformio fel busnes.

Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r tri mis rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024.



## Gosodiadau



Gosodom

**211**


o gartrefi

Roedd **183** dan drefniant ailosod

Roedd **28** yn gartrefi newydd a adeiladwyd

Derbyniwyd **113** gan yr ymgeisydd cyntaf

### Ailosod ein heiddo




Fel rhan o'n hymrwymiad er mwyn helpu i leihau digartrefedd, parhaom i weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn gosod cartrefi i'r rhai y mae angen cartref arnynt.

O blith yr holl gartrefi yr oeddem wedi'u hailosod yn ystod y cyfnod hwn, roedd **48%** i aelwydydd digartref, ac roedd y gweddill wedi'u gosod i ymgeiswyr oedd ag anghenion tai eraill megis bod angen iddynt symud i eiddo mwy addas, gofynion meddygol neu fygythiad digartrefedd



**Sgôr bodlonrwydd**

**8.6**

allan o 10

## Eich adborth

**Roeddech yn hoffi:**

- Yr ardal
- Maint yr eiddo
- Y gwasanaeth a'r cymorth a ddarparir gan WWH.


**Yr hyn yr hoffech ei weld yn gwella**

- Delio â gwaith trwsio heb ei gwblhau
- Gwaith glanhau ac addurno gwell
- Mwy o gyfathrebu wrth WWH

# Sut yr ydym yn rhedeg ein busnes



Dyma sut y gwariom pob **£1** o'ch rhent yn ystod 2023




## £3,744

Yn ystod 2023, gwariom **£3,744** fesul eiddo ar gostau rhedeg, sy'n cynnwys gwariant ar bethau megis gwaith trwsio a chynnal a chadw yn ein heiddo, costau staffio a gorbenion eraill, ond heb gynnwys gwaith trwsio mawr.

## Gofalu am ein cartrefi

Trwy ganolbwyntio ar effeithlonrwydd, rydym wedi cynnal y sefyllfa lle y mae ein costau gweithredol tua **50%** ers nifer o flynyddoedd, er bod y costau wedi bod yn uwch na chwyddiant.

## Cwynion

At ei gilydd, cawsom:

**45** cwyn

Roedd nifer uchaf y cwynion **(31)** yn ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw. Ymchwiliwyd i **32** o'r **45** o gwynion cyn pen 20 diwrnod.



# Gwaith trwsio a chynnal a chadw

Rydym yn parhau i adolygu a datblygu ein gwasanaeth trwsio fel y gallwn ymateb i'n preswylwyr mor gyflym ag y gallwn. Roedd niferoedd y tasgau trwsio a ddaeth i mewn wedi aros yn uchel, gan leihau'n raddol wrth i ni symud trwy chwarter dau. Roeddem wedi parhau i drwsio **70%** o'r holl waith trwsio y tro cyntaf ac rydym wedi mynychu **99%** o'r holl apwyntiadau. Mae rhan fwyaf y tasgau trwsio a adroddir yn cael eu cwblhau o fewn y 5 diwrnod cyntaf. Mae lefelau bodlonrwydd preswylwyr yn parhau i fod yn uchel wrth i'r sgorau cyfartalog godi i **9.4 allan o 10.**


Sganiwch yma i ymweld â'r adran atgyweirio ar ein gwefan.

**Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin eleni, cwblhaom**

**9,019**
**o dasgau trwsio**





Y ganran a bennwyd tro cyntaf





**Gwaith trwsio trydanol**
12.9 diwrnod ar gyfartaledd

**Gwaith trwsio ar systemau gwresogi**
7.6 diwrnod ar gyfartaledd




Y sgôr bodlonrwydd ar gyfer ein gwasanaeth atgyweirio



# Keeping you safe



**9,019** Cynhaliwyd archwiliad diogelwch nwy mewn **9,019** o gartrefi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

**11,566** Mae gan **11,566** o gartrefi dystysgrifau trydanol wedi'u diweddaru

Mewn ardaloedd cymunedol yn ein cynlluniau, gwnaethom gyflawni:

**305** o asesiadau risg tân


**169** o archwiliadau asbestos

Bob mis, byddwn yn cynnal

**79** o archwiliadau dŵr





Gosodom:



**86** cegin




**36** ystafell ymolchi



**56** o foeleri



ffenestri mewn **105** cartref



**53** drws ffrynt

**69** drws cefn



Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin eleni, dechreuom wneud gwaith ôl-osod mewn **82** o gartrefi yn Wrecsam a Chaerffili, gan osod technolegau arbed ynni megis paneli PV (solar) a batris, pympiau gwres ffynhonnell aer, inswleiddio waliau allanol a systemau awyru. Ariannir y gwaith ymchwil gan Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru.

## Eich adborth

### Roeddech yn hoffi:

- Ei bod hi'n hawdd adrodd am waith trwsio
- Ymddygiad yr aelod o'r tîm


### Yr hyn yr hoffech ei weld yn gwella

- Dim angen gwneud unrhyw waith pellach
- Cadw at apwyntiadau


# Rhenti

Mae ôl-ddyledion rhent (ar gyfartaledd) wedi parhau i ostwng i **1.27%** erbyn diwedd mis Mehefin. Diolch am barhau i dalu eich rhent mewn pryd.

Mae nifer y preswylwyr sy'n cynnal cynllun talu cytunedig yn parhau i fod yn uchel. Yn ystod y cyfnod hwn, talodd **94%** o breswylwyr eu rhent fel y trefnwyd gyda'u Swyddog Tai. Roedd ein Swyddogion Cymorth Tenantiaeth wedi parhau i gynorthwyo preswylwyr i fanteisio ar dros **£45,000** ar ffurf Taliadau Tai Dewisol (DHP) a **£6,000** ar ffurf Cyllid Atal Digartrefedd (HPF). Mae hwn yn creu cyfanswm o **£198,000** o ran y cyllid a sicrhawyd dros y 12 mis diwethaf.





Mae **94%** o breswylwyr yn talu eu rhent fel y trefnwyd gyda Swyddogion Tai




Gwelwyd nifer y preswylwyr y mae lefel eu hôl-ddyledion yn uchel yn gostwng ychydig o **51** ar ddechrau mis Ebrill i **48** ar ddiwedd mis Mehefin.

## ÔL-DDYLEDION RHENT







Erbyn diwedd mis Mehefin, roedd **6,700** o bobl yn talu trwy gyfrwng trefniant Debyd Uniongyrchol, sef y ffordd hawsaf o dalu eich rhent

# Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, gwelom gynnydd yn nifer yr achosion YG a gofnodwyd gennym, sef **83** o'u cymharu â **47** yn ystod y tri mis blaenorol. Erbyn diwedd mis Mehefin, gwelwyd nifer yr achosion gweithredol yn codi rhyw ychydig i **106** o **103** ar ddiwedd mis Mawrth.

**106**
**active cases**


Y tri mater mwyaf cyffredin yr adroddir amdanynt yw:

| |
|---|
| **Sŵn** |
| **Anghydfodau rhwng cymdogion** |
| **Cam-drin domestig** |

# Sut yr ydym yn rhedeg ein busnes



Cawsom
**291 galwad**
y dydd am waith trwsio a gwresogi a
**159 galwad**
y dydd am gymorth tai



**9am i 10am** oedd yr amser mwyaf prysur i ffonio ein Tîm Gwaith Trwsio.
Rhwng **10am ac 11am** oedd yr amser mwyaf prysur i'n Tîm Cymorth Tai.





Yr amser aros cyfartalog i breswylwyr a oedd yn ffonio ein:

- Tîm Gwaith Trwsio oedd **27 eiliad**
- Tîm Gwasanaethu Nwy oedd **19 eiliad**
- Tîm Cymorth Tai oedd **1 funud 18 eiliad**

# Ein Hunan-Werthusiad

**Caiff yr holl gymdeithasau tai yng Nghymru eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n rhaid iddynt ddilyn y Fframwaith Rheoleiddio. Bob blwyddyn, rhaid i ni gynnal hunan-werthusiad fel rhan o'n Dyfarniad Rheoleiddio. Mae'n dangos sut yr ydym yn cyflawni'r 9 Safon Rheoliadol y mae'n rhaid i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru eu cyflawni. Mae'r safonau yn ymwneud â llywodraethu, darparu gwasanaeth a hyfywedd ariannol.**

**Llywodraethu da:** Mae hyn yn golygu cael eu harwain mewn ffordd effeithiol a'u rheoli mewn ffordd dda gan fyrddau, swyddogion gweithredol a staff. Gweithio gyda phreswylwyr a phartneriaid i wneud penderfyniadau busnes effeithiol.

**Darparu cartrefi a gwasanaethau o ansawdd uchel:** Mae hyn yn golygu darparu cartrefi a gwasanaethau sy'n bodloni disgwyliadau ac anghenion amrywiol pobl, gan roi pwyslais ar wasanaethau o ansawdd uchel a gwelliant parhaus.

**Hyfywedd ariannol:** Mae hyn yn golygu meddu ar sefyllfa ariannol a reolir yn dda, ynghyd â'r adnoddau a'r llif arian i fodloni ymrwymiadau busnes presennol ac yn y dyfodol.

| | **Gwelliannau –** Er mwyn bodloni holl feysydd y safon hon, byddwn yn: | |
|---|---|---|
| **Safon Rheoleiddio 1:**<br>Llywodraethu ac arweinyddiaeth strategol |  | Gweithredu cynllun recriwtio ac olyniaeth i'r Bwrdd ar gyfer 2024 a 2025<br>Cyhoeddi dull gweithredu y Gymdeithas tuag at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y wefan.<br>Cynllunio dull gweithredu er mwyn sicrhau bod asesiad risg priodol yn cael ei gynnal o bob prosiect newydd sy'n destun newidiadau o ran y gofyniad deddfwriaethol |
| **Safon Rheoleiddio 2:**<br>Trefniadau rheoli risg a sicrwydd cadarn |  | Cynnal proses o ymsefydlu ein Harchwilwyr Mewnol newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Safon Rheoleiddio 3:** Darparir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid |  | Pennu cyfres o fesurau ar gyfer pob gwasanaeth er mwyn galluogi monitro rheolaidd effeithiol o berfformiad a chanlyniadau teg i staff a phreswylwyr i gynnwys mesurau meintiol ac ansoddol. |
| **Safon Rheoleiddio 4:** Caiff tenantiaid eu grymuso a’u cynorthwyo i ddylanwadu ar gynllun a darpariaeth gwasanaethau |  | Ymwreiddio sgiliau ymyrraeth ar draws y grŵp staff, gan ganolbwyntio ar wasanaeth rheng flaen yn y lle cyntaf, megis Trwsio, Gosodiadau ac YG. |
| **Safon Rheoleiddio 5:** Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol ac yn y dyfodol |  | Gweithio gyda Chartrefi Cymunedol Cymru a landlordiaid cymdeithasol eraill i gynnal adolygiad llawn o Rhenti Byw i Gymru. |
| **Safon Rheoleiddio 6:** Dull gweithredu strategol ar gyfer gwerth am arian |  | Gweithio ar brosiect mewnol i wella ein systemau o’r cam caffael i’r cam talu, er mwyn sicrhau ein bod yn cael cymaint o werth am arian ag y bo modd. |
| **Safon Rheoleiddio 7:** Cynllunio a rheolaeth ariannol |  | Mae prosiect mewnol i fwrw golwg ar systemau adrodd a chyfrifyddu wedi cychwyn, er mwyn sicrhau bod yr holl systemau yn gweithio’n dda gyda’i gilydd. |
| **Safon Rheoleiddio 8:** Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli’n dda |  | Gweithredu system rheoli asedau er mwyn gwella’r ffordd yr ydym yn cynnal a chadw cartrefi ymhellach, a deall ansawdd, diogelwch, perfformiad a’r buddsoddiad sy’n ofynnol. |
| **Safon Rheoleiddio 9:** Darparu llety o ansawdd uchel |  | Byddwn yn gweithio ar ddiweddariad i’n strategaeth Rheoli Asedau a’n Polisi Cydymffurfiaeth SATC. |



# Yr hyn sy'n digwydd pan fyddwch yn gwneud cwyn

**Mae cwynion a chanmoliaeth gan breswylwyr a chwsmeriaid yn ffynhonnell adborth hynod o werthfawr am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Rydym yn croesawu eich adborth, y da a'r drwg. Maent yn ffordd gadarnhaol o hyrwyddo bodlonrwydd cwsmeriaid ac yn ffordd o nodi cyfleoedd i wella darpariaeth gwasanaethau. Maent yn ein helpu i ddysgu am eich anghenion a'ch disgwyliadau.**

Y llynedd, adolygom ein polisi cwynion, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well gyda pholisi safonol ar gyfer delio â chwynion ar gyfer yr holl ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfrifoldebau penodol dros ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â thai yng Nghymru.


## Beth yw cwyn?

Cwyn yw pan fyddwch yn mynegi anfodlonrwydd am safon gwasanaeth, camau gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan GTWW neu ei gynrychiolwyr, sy'n effeithio ar gwsmer unigol neu grŵp o gwsmeriaid.

## Cwynion yn ystod 2023/24

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adolygu ein gweithdrefnau, ein mecanweithiau cofnodi a'n gofynion adrodd, yn ychwanegol i ymgymryd â hyfforddiant staff, a bydd y gwaith yn parhau yn ystod 2024. Mae'r rhain oll wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer y cwynion a adroddwyd.

Rydym wedi ymrwymo i ddelio mewn ffordd effeithiol ag unrhyw gwynion am ein gwasanaethau ac, yn ystod 2024, byddwn yn parhau i fonitro cwynion a dysgu gan y wybodaeth y byddwn yn ei chael trwy gyfrwng cwynion er mwyn gwella ein gwasanaethau.



## Sut allaf i wneud cwyn?

Gallwch wneud cwyn ar lafar neu yn ysgrifenedig os byddwch yn teimlo nad yw'r gwasanaeth yr ydym wedi'i ddarparu wedi bodloni eich disgwyliadau.

**Ffoniwch:** 0800 052 2526

**Anfonwch e-bost at:** contactus@wwha.co.uk

**Ar-lein:** www.wwha.co.uk/cy/cysylltu/

**Wyneb yn wyneb:** cysylltwch â'ch Swyddog Tai

Rydym yn gwybod bod pethau yn gallu mynd o le, felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni fel ein bod yn gallu unioni'r sefyllfa.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Byddwn yn ceisio datrys eich cwyn yn syth trwy gyfrwng cyswllt anffurfiol yn y lle cyntaf
- Os na fyddwn yn gallu datrys eich cwyn ar ôl 10 diwrnod a chytuno ar gamau gweithredu, mae proses ffurfiol yn bodoli. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn ein Polisi Cwyno, sydd ar gael ar ein gwefan wwha.co.uk/cy/cwyn-neu-bryder/




# Gwneud Gwahaniaeth

**Eleni, rydym wedi cynorthwyo dros 60 o sefydliadau a chlybiau chwaraeon ar lawr gwlad trwy ddarparu cyllid.**

**Mae ein cronfa Gwneud Gwahaniaeth, sy'n cynnwys cyfraniadau gan y contractwyr a'r cyflenwyr yr ydym yn gweithio gyda nhw, wedi helpu amrywiaeth o brosiectau lleol, o godi cynhwyswyr i le chwarae iard sbwriel, i greu murluniau canol tref.**

## De Cymru

Cardiff Huskies yw'r unig glwb chwaraeon hoci iâ anabledd yng Nghymru, ac roeddent wedi troi atom yn ddiweddar gan ofyn am gyllid gan eu bod yn dymuno ceisio cadw'r costau i lawr ar gyfer eu timau.

Mae'r clwb yn croesawu aelodau o 14 oed ac mae'n cynnig chwaraeon tîm hwyliog a hygyrch i chwaraewyr anabl a chwaraewyr heb fod yn anabl, o bob gallu.

Lleolir y clwb yn yr Arena Iâ yng Nghaerdydd, ac mae ganddo dros 20 o chwaraewyr ac mae'n parhau i dyfu. Mae'r clwb yn darparu slediau, ffyn, cit diogelwch a hyfforddiant i'w chwaraewyr, ond mae crysau hoci iâ yn eitemau arbenigol a drud iawn. Roedd y clwb wedi gweld bod fforddiadwyedd y cit yn rhwystr i chwaraewyr. Roeddent yn dymuno sicrhau bod pob chwaraewr yn gallu manteisio ar grysau tîm o ddechrau eu taith gyda'r Huskies, a byddai hyn yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gemau. Penderfynodd y clwb droi atom am help ac roeddem wrth ein bodd i noddi crysau Cardiff Huskies ar gyfer eu gemau cartref a'u gemau oddi cartref am y tymor.

Dywedodd llefarydd ar ran y clwb: "Mae crysau clwb yn helpu chwaraewyr i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn rhan o gymuned yr Huskies. Gallwch weld y llawenydd pan fydd chwaraewr newydd yn cael eu crys a'i bwysigrwydd."

Grŵp ieuenctid arall o Gaerdydd a ofynnodd i ni am gymorth oedd Grŵp Sgowtiaid 19 Caerdydd. Roedd y grŵp, sy'n gwasanaethu ardal Y Rhath a Phenylan yng Nghaerdydd, yn chwilio am help i brynu offer chwaraeon symudol. Roeddem yn gallu cynnig y cyllid iddynt brynu offer saethyddiaeth symudol ac addas i blant, ynghyd ag offer chwaraeon arall, fel y gallai'r Sgowtiaid ganolbwyntio ar gael hwyl a meithrin y tîm.

## Gogledd Cymru

Roedd ein partner adeiladu hirdymor, Grŵp Castlemead, wedi helpu lle chwarae antur sbwriel i ehangu ei waith gyda phobl ifanc ar ôl rhoi cynhwysydd newydd ar ei safle yn Wrecsam (yn y llun ar y chwith).

Mae'r Tir, a leolir yn ardal Plas Madoc y ddinas, yn lle chwarae iard sbwriel mynediad agored lle y gall plant pump oed a throsodd archwilio a chwarae ar deiars, paledi a berfâu wedi'u hailgylchu, ymhlith pethau eraill.

Roedd y tîm sy'n rhedeg y lle chwarae, AVOW Wrexham, yn rhedeg allan



o le gan eu bod yn dymuno ehangu eu clwb ieuenctid.

Roedd angen ychydig help arnynt i symud cynhwysydd er mwyn creu lle, a'i ddisodli gydag un newydd, a ddefnyddir fel canolfan ieuenctid.

Camodd Castlemead i'r adwy trwy ddarparu peiriannau arbenigol ac amser y staff er mwyn helpu Y Tir i gwblhau'r gwaith. Mae'r cwmni yn arbed pren dros ben a hen baledi o'n safleoedd adeiladu yng Ngogledd Cymru hefyd.

## Gorllewin Cymru

Aeth disgyblion yn Ysgol Uwchradd Aberteifi ati i greu murlun hyfryd yng nghanol y dref gyda chymorth artist graffiti lleol, Lloyd the Graffiti.

Bu'r myfyrwyr yn gweithio gyda Lloyd i gynllunio murlun wedi'i seilio ar thema Cynefin, sy'n adlewyrchu hanes y dref a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt. Dros bedwar diwrnod, buont yn cydweithio i baentio eu



cynllun ar wal sy'n edrych allan dros un o feysydd parcio y dref, lle y gall pobl leol ac ymwelwyr ei edmygu.

Roeddem wrth ein bodd i ddarparu cyllid er mwyn i'r prosiect allu digwydd.

Dywedodd llefarydd ar ran yr ysgol: "Rydym wastad yn chwilio am ffyrdd o gynnig cyfleoedd newydd sy'n cyfoethogi ar gyfer ein disgyblion agored i niwed.

Mae'r prosiect wedi cynnig profiad iddynt i'w ychwanegu i'w CV, a fydd yn hynod werthfawr er mwyn cychwyn ar eu cyfleoedd gyrfa."

# Mae'n bryd defnyddio eich Cymraeg

**Mae nifer gynyddol o bobl yn siarad ac yn dysgu Cymraeg ac, erbyn diwedd 2050, mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg.**

**Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo a hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg er mwyn annog ein preswylwyr a'n staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu bywydau bob dydd a phan fyddant yn delio â ni.**

**A wyddoch chi:**

- y gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg
- y gallwch siarad â ni yn Gymraeg dros y ffôn
- y gallwch gael fersiynau Cymraeg o lythyrau neu gyhoeddiadau fel In Touch

Os hoffech gael deunydd cyfathrebu gennym yn Gymraeg, cysylltwch â ni i ddiweddaru eich dewisiadau.

Mae ein gwefan a'n sianelau cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog hefyd. Rydym yn isdeitlo ac yn creu fideos Cymraeg ac yn cyhoeddi taflenni, posteri, arwyddion a chyhoeddiadau dwyieithog.

**Sganiwch y cod QR hwn i ddarllen am rai o'r ffyrdd y gallwch gyfathrebu â ni yn Gymraeg.**

## Bore Coffi

Yn ddiweddar, bu staff o'n tîm Gwasanaethau Corfforaethol sy'n siarad Cymraeg, ac sy'n rheoli ein gwasanaethau Cymraeg, yn gwirfoddoli wrth drefnu bore coffi Cymraeg yn ein cynllun gofal ychwanegol, Maes Y Môr, yn Aberystwyth.

Bu preswylwyr sy'n siarad Cymraeg yn hel atgofion ac yn rhannu eu profiadau bywyd yn eu mamiaith, a bu preswylwyr eraill yn dysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg newydd.

Dywedodd Amanda Harries, Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol: "Roedd hi'n bleser cael sgwrs gyda'r preswylwyr.

"Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i ymweld eto. Y tro nesaf, byddwn yn dod â chryno ddisgiau cerddoriaeth Gymraeg gyda ni, gan bod cerddoriaeth yn dwyn atgofion mor gryf ymhlith preswylwyr hŷn."



## Defnyddiwch eich Cymraeg

Comisiynydd y Gymraeg yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac am osod safonau er mwyn sicrhau bod sefydliadau a busnesau sy'n gweithio yng Nghymru yn cyflawni'r safonau hynny fel y gall unrhyw un sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wneud hynny.

Dros y misoedd nesaf, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori gyda chymdeithasau tai ar safonau i ni eu dilyn.

Eleni, rhwng 25 Tachwedd a 9 Rhagfyr 2024, cynhaliodd adran y Comisiynydd ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg hefyd, gan annog sefydliadau ar draws Cymru i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg.

## Os ydych chi'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eich sgiliau Cymraeg

### Clwb Cwtsh

Rhaglen flasu sy'n canolbwyntio ar siarad Cymraeg gyda phlant ifanc. Mae hon ar gyfer rhieni/gofalwyr, pobl sydd ar fin dod yn rhieni ac aelodau teuluol estynedig. Mae hefyd yn cynnal rhaglen flasu wyth wythnos sy'n canolbwyntio ar siarad Cymraeg gyda phlant ifanc.
meithrin.cymru/clwb-cwtsh

### GoLingo

Ap am ddim sy'n helpu i feithrin eich hyder wrth siarad ac sy'n eich helpu i wella eich ynganiad.

### Cymraeg Gwaith

Cyrsiau blasu ar-lein byr am ddim sy'n cynnig geiriau ac ymadroddion bob dydd. Cynlluniwyd rhai cyrsiau ar gyfer gwahanol sectorau megis iechyd a gofal cymdeithasol.
https://learnwelsh.cymru/work-welsh/work-welsh-courses/work-welsh-tastercourses/

### Dysgu Cymraeg

Mae gwefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnwys popeth y bydd ei angen arnoch er mwyn eich helpu i ddysgu. Mae'n cynnwys manylion cyrsiau yn eich ardal chi, gallwch gofrestru am ei chynllun siarad/speaking neu droi at ei hadnoddau dysgu.
https://learnwelsh.cymru/



# Os hoffech gadw'n egnïol – rhowch gynnig ar Tai Chi

**"Mae Tai Chi yn addas i mi," dywedodd Barbara, preswylydd o Ben-y-bont ar Ogwr. Mae'n ymarfer corff ysgafn ac mae'n rhywbeth gwych i bobl hŷn. Mae'n fy nghadw yn egnïol, ac rydw i'n hoffi mynd i ddosbarthiadau gyda phobl arall."**

Mae Tai Chi wedi'i wreiddio mewn athroniaeth Tsieineaidd hynafol ac mae'n cynnwys gwneud symudiadau ysgafn ac araf gan ganolbwyntio ar dechnegau anadlu. Mae'n cynnig manteision corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Mae Barbara yn 92 oed, a hi yw aelod hynaf y grŵp wythnosol a gaiff ei redeg yng Nghwrt Hanover, Pen-y-bont ar Ogwr gan ei chymydog, Martin Williams, sy'n hyfforddwr Tai Chi.

Mae'n un o ddau ddosbarth y mae hi'n cymryd rhan ynddynt bob wythnos, ac mae'r llall yn cael ei gynnal mewn neuadd eglwys leol.

Dywedodd Barbara: "Rydw i wastad wedi gwneud ymarfer corff. Arferwn fod yn aelod o'r grŵp Cadw'n Heini Cymraeg ac roeddwn yn mynychu dosbarthiadau cerddoriaeth a symud.

"Ni allaf fynd ar y llawr fel yr arferwn, felly mae Tai Chi yn addas i mi. Rydw i wedi bod yn ei wneud ers pum mlynedd ac rydw i'n teimlo ei fod yn gwneud lles i mi."

Dywedodd Martin, hyfforddwr y dosbarth, sy'n gwirfoddoli wrth wneud y gwaith hwn, bod y sesiwn yng Nghwrt Hanover yn addas i bob lefel o ffitrwydd.

"Mae rhan fwyaf y preswylwyr sy'n cymryd rhan yn hŷn, ac i'r rhai nad ydynt yn gallu bod ar eu traed am gyfnodau hir, gallant wneud yr ymarferion wrth eistedd ar gadair," esboniodd Martin, sydd wedi bod yn gwneud crefft ymladd a Tai Chi ers sawl blynedd.

"Ceir dau fath o Tai Chi, mae un yn gyflymach ac yn fwy tebyg i symudiadau crefft ymladd sef cicio, taro a neidio. Mae'r llall, sef yr un yr wyf yn ei ddysgu yng Nghwrt Hanover, ar gyfer llesiant, ac mae'n canolbwyntio ar ymarferion anadlu a chynyddu lefelau ocsigen. Gallwch deimlo'r gwahaniaeth.

"Pan gefais lawdriniaeth ar y galon ddwy flynedd yn ôl, dechreuais wneud y ffurf mwy ysgafn bob dydd, ac rydw i'n teimlo ei fod wedi cyflymu fy adferiad."

"Rydw i'n mwynhau gwneud Tai Chi, gan rannu fy sgiliau gyda phreswylwyr eraill."

Dechreuodd Sue Wolsley fynychu dosbarthiadau Martin ym mis Mai, ac ychwanegodd: "Rydw i'n mwynhau'r dosbarth. Mae'n dda ar gyfer ymarferion anadlu. Ar ôl i ni orffen yr ymarferion, byddwn yn cael paned o de ac yn ei wneud yn ddigwyddiad cymdeithasol."

## Gall Tai Chi helpu i:

- wella cydbwysedd a sefydlogrwydd trwy ganolbwyntio ar symudiadau araf dan reolaeth, a hefyd, mae'n lleihau'r risg y bydd pobl yn cwympo, yn enwedig pobl hŷn.
- cynyddu nerth a hyblygrwydd ac er nad yw'n ymddangos yn rhywbeth llafurus, mae'n gwella cryfder, hyblygrwydd a symudedd y cyhyrau a'r cymalau yn raddol.
- gwella iechyd cardiofasgwlaidd sy'n gallu helpu gyda phwysedd gwaed uchel a lleihau'r risg o ddioddef clefyd y galon.
- lleihau straen a gorbryder

## A hoffech chi roi cynnig arno

Dyma rai mannau sy'n cynnal dosbarthiadau yn eich ardal chi.

**Canolfannau hamdden neu ganolfannau cymunedol lleol**
Ceisiwch holi eich canolfan hamdden neu ffitrwydd leol neu edrychwch beth sy'n digwydd yn eich neuadd gymunedol leol. Efallai eu bod yn cynnig dosbarthiadau Tai Chi neu efallai y bydd ganddynt wybodaeth am ddosbarthiadau o'r fath.




**Tai Chi Evolutions**
Mae'r sefydliad hwn yn cynnal dosbarthiadau i ddechreuwyr yn ardal Caerdydd a Chaerffili
taichievolutions.org/classes/



**Ar-lein**
Os oes yn well gennych ddilyn dosbarthiadau o'ch cartref, mae nifer o ddosbarthiadau ar-lein ar gael, a gallwch eu gweld ar blatfformau fel YouTube.

**Apiau**
Ceir nifer o apiau fel Tai Chi at Home neu 7 Minute Chi. Gallwch eu lawrlwytho am ddim ond maent yn cynnig dewisiadau prynu o fewn yr ap.

# Croesair




**AR DRAWS**
2. Gwlad, Prifddinas Addis Ababa.
4. Terfynol.
6. Pin pren.
8. Erfyn turnio.
10. Cae o borfa.
11. Ffaelu.
12. Bodlon.
13. Dechreuodd Iwan _____ ei yfra fel actor gyda Pobl y Cwm.
15. Dirymu.
16. Llinell leol.
19. Llymrig.
20. Pump deg y cant.
22. Planhigion sy'n frodorol i ardaloedd mynyddig.
23. Curo trwy glyfrwch.

**I LAWR**
1. Ffasiwn.
2. Bwriadus.
3. Un sy'n dioddef o golli cof yn rhannol.
5. Gwrthrych a ddefnyddir fel cynhwysydd ar gyfer hylifau.
7. Effro, gan arsylwi'n ofalus.
9. Gwrthgodiad.
11. Y ffordd i mewn,
14. Tymor y flwyddyn.
17. Cyflwr cyffredinol y corff a'r meddwl.
18. Cloerdwll.
21. Clirio dyled.

## Oriel luniau preswylwyr

Mae Cerys Dyer, preswylydd o Gaerdydd, wedi anfon y lluniau hyn atom o'i gwaith croesbwytho.

Dechreuodd Cerys, sy'n byw yn Llaneirwg, fynychu dosbarth crefft croesbwytho ddwy flynedd yn ôl. Mae hi wedi gwneud lluniau ar gyfer ei theulu a'i ffrindiau.

Eleni, rhoddodd gerdyn Sul y Mamau i'w mam yr oedd wedi ei phwytho.

Dywedodd: Rydw i'n edrych ymlaen at fy nosbarth bob dydd Mawrth. Rydw i wedi gwneud nifer fawr o ffrindiau yno."

"Weithiau, byddaf yn gorfeddwl pethau ac yn

1. Iglw
2. Gaeaf
3. Siocled
4. Cotiau
5. Bobsled
6. Celyn
7. Rhewi
8. Sgio
9. Evergreen
10. Rhagfyr
11. Chwefror
12. Pears
13. Gaeafgysgu
14. Carw
15. Eirlithriad
16. Eira
17. Ionawr
18. Lluwchwynt
19. Nadolig
20. Siwmper

## Chwilair

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll | D | B | L | A | I | U | G | S | Y | G | F | A | E | A | G | Ff | T | F | Th |
| F | G | E | Ll | Y | G | O | Ph | S | D | S | B | R | J | Dd | A | E | E | L | D |
| Ll | A | J | I | D | M | E | L | W | E | H | E | I | C | I | E | B | S | W | E |
| U | Dd | E | T | R | L | P | Y | U | P | A | G | E | M | D | A | J | O | E | L |
| W | Rh | S | I | E | L | U | A | O | Th | Y | Ll | S | E | U | F | D | B | F | S |
| Ch | P | E | U | Ll | T | I | R | F | W | L | P | L | Ph | W | A | S | L | D | B |
| W | O | T | R | F | T | G | Th | W | I | C | C | R | B | W | T | Ff | O | E | O |
| Y | D | Ng | E | O | N | N | C | R | R | O | Y | I | Ff | A | Y | J | L | H | B |
| N | C | R | C | Dd | N | H | A | R | I | C | P | R | G | O | Ll | Rh | E | D | N |
| T | W | Ff | N | Y | B | Ph | N | S | L | A | V | N | D | I | A | C | U | I | R |
| Ng | H | A | L | R | N | H | Dd | S | E | L | D | O | M | G | Rh | A | M | H | D |
| I | Rh | E | W | I | P | J | A | R | T | A | R | Th | F | S | H | U | B | S | G |
| R | C | O | H | P | C | N | P | N | Y | P | N | Y | A | O | W | R | G | Ng | S |
| A | G | E | N | L | C | S | L | I | U | W | R | Th | H | H | E | N | F | A | R |
| C | A | R | W | B | R | Ph | I | N | B | N | Th | A | I | Ph | O | H | G | Ph | O |
| S | Y | I | N | O | E | E | D | W | E | Ff | P | Y | M | I | O | N | A | W | R |
| U | S | Ng | I | B | W | R | J | A | M | Th | A | Ng | B | E | C | R | O | E | F |
| Th | S | W | I | A | L | E | P | U | W | P | T | C | R | O | S | A | C | S | E |
| P | Dd | E | Ll | N | G | L | J | Th | W | E | E | Rh | E | R | C | G | J | T | W |
| N | A | D | O | L | I | G | F | O | S | D | H | R | I | H | C | Ng | A | T | Ch |

dechrau gofidio, ond pan fyddaf yn croesbwytho, bydd yn fy helpu. Byddaf yn canolbwyntio ar wneud fy lluniau a byddaf yn teimlo'n well."




## SWDOCW

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | 4 | | | 8 | | | 5 | 9 |
| | | 5 | 7 | | 9 | 3 | | |
| 3 | | | | 4 | | | | 1 |
| 8 | 9 | | 5 | | 2 | | 4 | 7 |
| | | 2 | 4 | | 1 | 9 | | |
| 4 | 1 | | 9 | | 8 | | 2 | 3 |
| 7 | | | | 9 | | | | 2 |
| | | 4 | 2 | | 7 | 6 | | |
| 2 | 6 | | | 1 | | | 9 | 5 |



# Ein haf llawn hwyl

**Gyda thymor yr hydref wedi hen gychwyn, rydym yn bwrw golwg yn ôl dros rai o'r gweithgareddau am ddim a gynhaliwyd yn ystod ein haf llawn hwyl yn ein cynlluniau eleni.**

Ym Maes Yr Hufenfa, Sanclêr, bu'r plant yn mwynhau gwneud balm gwefusau, bocsys adar a gwaith gwehyddu helyg yn eu sesiynau chwarae yn ystod y gwyliau haf. Trefnwyd y sesiynau gan Rhiannon Ling, Swyddog Datblygu Cymunedol, gyda chymorth Multiply Caerfyrddin, a ddarparodd weithdai creu balm gwefusau, eli dwylo a siampŵ i breswylwyr ifanc.

Mewn sesiwn arall, bu'r plant yn gwneud bocsys adar ac ystlumod gan ddefnyddio pecynnau a ddarparwyd gan Bartneriaeth Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a oedd hefyd wedi darparu dysglau plannu, meinciau a hadau er mwyn i'r plant blannu blodau gwyllt (gweler y llun isod).

Yn Wrecsam, cynhaliodd Canolfan Adnoddau Cymunedol Hightown Glwb Brecwast Hwyl a Bwyd Gwyliau ym mis Awst. Mynychodd Cynllun Gwên er mwyn cynnig cyngor am hylendid y geg i deuluoedd â phlant, a bu Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth Xplore! yn cynnig gweithgareddau crefft.



Chwarae yn ystod yr haf yng Ngolwg Y Castell, Aberteifi



Planau hadau ym Maes Yr Hufenfa, Sanclêr

# Ein rhifyn digidol cyntaf o In Touch

Cyhoeddwyd ein fersiwn digidol yn unig cyntaf o gylchgrawn In Touch yn ystod yr haf.

Wrth i fwy o bobl ddewis darllen newyddion a gwneud pethau reu gwefan newyddion bwrpasol newydd ar gyfer In Touch. Roedd yn cynnwys yr holl newyddion diweddaraf o'n cymunedau, gwybodaeth am ein gwasanaethau, cyngor ariannol a syniadau am bethau i'w gwneud gyda'r teulu, fel ein rhifynnau argraffedig.

Yn ystod yr wythnos gyhoeddi ddiwedd fis Awst/dechrau mis Medi, anfonwyd y fersiwn digidol o In Touch at filoedd o breswylwyr a oedd wedi rhoi eu cyfeiriadau e-bost i ni. Roeddent yn gallu darllen y newyddion ar eu ffonau clyfar, eu llechi a'u cyfrifiaduron. Rhannom ddolenni ar ein sianelau cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan a gyda'n staff hefyd.

Roedd y newid o ganlyniad i'n hymrwymiad i fod yn fwy cynaliadwy ac effeithlon fel busnes. Rydym wedi sicrhau Lefel 2 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, a ddyfarnir i sefydliadau sy'n gweithredu er mwyn deall, monitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd.

Blwyddyn nesaf, byddwn yn cynhyrchu rhifyn digidol unwaith eto yn ystod yr haf, ac yn dosbarthu copïau argraffedig yn ystod y gwanwyn a'r hydref.

**Os na chawsoch y rhifyn blaenorol, sganiwch y cod QR hwn i'w ddarllen eto.**

## Dyma ychydig o'ch adborth

"Gwelliant. Mae'r fersiwn ddigidol yn haws i'w dilyn. Byddaf yn darllen ar fy ffôn fel arfer, ac mae'n rhaid i mi chwyddo'r dudalen a'i symud o gwmpas er mwyn gallu darllen yr adran gyfan. Gyda'r fersiwn ddigidol, mae'n llifo. Dim ond mynd i'r ddewislen i ailddarllen adrannau sydd o ddiddordeb i mi y mae'n rhaid i mi ei wneud. Mae'n hawdd ei ddilyn. Rydw i'n hoff iawn ohono."
***Preswylydd o Wrecsam***

"Mae'n well gennyf y copi caled."
***Preswylydd o Sir y Fflint***

"Mae'n wych ac yn hawdd i'w ddefnyddio, felly gallaf ddarllen y rhannau sydd o ddiddordeb i mi yn gyntaf."
***Preswylydd o Geredigion***

"Rydw i'n gweld eisiau'r croesair."
***Preswylydd o Gaerdydd***



# Gall help llaw wneud gwahaniaeth aruthrol

Croeso i'ch Gwasanaeth Cymorth a Lles Tenantiaid a ddarparir gan:

**Life & Progress**

Mae hwn ar gael pa bynnag bryd neu pha bynnag le, unrhyw ddiwrnod, ac mae cymorth ar gael ar ben arall y ffôn. Gallwch gael cymorth ar-lein hyd yn oed. Nid oes unrhyw gyfyngiad o ran nifer y materion y gallwch gael cymorth gyda nhw ac ni chodir tâl am y gwasanaeth.



## Cwnsela

Fe'ch anogir i gysylltu â'r gwasanaeth cyn gynted ag y bydd problem a chyn i bethau fynd yn fwy difrifol.

Gall y gwasanaeth gynnig cymorth er mwyn eich helpu i ymdopi'n llwyddiannus gyda digwyddiadau bywyd a'ch helpu i gadw'n hapus, yn iach ac i ganolbwyntio yn llawn ar fywyd a gwaith.

**Cymorth a chyngor pan fydd ei angen arnoch, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn**

**www.tsws-assist.co.uk**

Mae'r materion y rhoddir sylw iddynt yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhain:

- Gwybodaeth am iechyd a lles
- Iechyd meddwl a lles
- Perthnasoedd
- Materion teuluol
- Rheoli dyled
- Problemau yn y gweithle
- Eich hawliau fel defnyddiwr



## Ffoniwch ni heddiw yn gyfrinachol

Rhadffôn

**0330 094 8845**

## Yr help cywir ar yr adeg gywir

**Mae'r gwasanaeth ar gael trwy gydol y dydd a'r nos, 24/7, dros y ffôn ac ar-lein.**

Nod y gwasanaeth yw ateb eich cwestiynau yn gyflym a bydd yn eich cyfeirio at y ffynhonnell cymorth mwyaf priodol hefyd, gan gynnwys cwnsela ac arbenigwyr cyfreithiol, ariannol, gofal plant a materion defnyddwyr.

- Mynd i'r afael â straen a gorbryder
- Heriau fel rhieni
- Cyngor iechyd a lles
- Cymorth bob awr o'r dydd

## Manteisio ar y gwasanaeth

Gellir manteisio ar y gwasanaeth ar unrhyw adeg trwy ffonio'r gwasanaeth ar y rhif Rhadffôn.

Ar ôl siarad gyda chynrychiolydd gwasanaeth wedi'u hyfforddi, byddwch yn cael eich cynorthwyo a byddant yn eich helpu i bennu'r camau gorau i chi er mwyn datrys eich problem.

Efallai y byddwch yn cael budd o siarad gyda'r cynrychiolydd gwasanaeth, neu efallai y byddwch yn dymuno cael cwnsela neu gymorth mwy arbenigol.

Beth bynnag fo'ch sefyllfa, bydd y gwasanaeth yr helpu ac, os yw hynny'n briodol, bydd yn eich rhoi mewn cysylltiad ag arbenigwr a fydd yn eich cynorthwyo gyda'r problemau yr ydych yn eu hwynebu.

**Cael help ar-lein**

Os oes yn well gennych chi beidio ffonio, gallwch droi at wefan TSWS sef www.tenantcare.co.uk lle y gallwch weld llawer o wybodaeth a chymorth gan gwnselwyr proffesiynol. Gallwch ddefnyddio eu cyfleuster sgwrsio byw hefyd. Bydd angen i chi ddefnyddio eich manylion mewngofnodi fel tenant WWH

**Enw defnyddiwr:** walesandwest

**Cyfrinair:** resident